# Croeso i ein hysgol ni

# CRhA Ysgol Llangynnwr
# Llangunnor School PTA

# Welcome to Our School

## Croeso i Ysgol Llangynnwr

Mae'r wybodaeth yma wedi'i rhoi at ei gilydd gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llangynnwr yn arbennig ar eich cyfer chi, fel teulu newydd yn ymuno â chymuned ein hysgol. Mae dechrau'r ysgol yn amser cyffrous i'r teulu cyfan. Mae astudiaethau'n dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng cyfranogiad rhieni a pha mor dda mae plant yn ei wneud, felly beth am gymryd rhan o'r dechrau! Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llangynnwr ac yn rhoi gwybod i chi sut y medrwch chi ymuno.

## Welcome to Llangunnor School

This information has been put together by Llangunnor School PTA especially for you, as a new family joining our school community. Starting school is an exciting time for the whole family. Studies show that there's a direct link between parental involvement and how well children do, so why not get involved from the start! This booklet provides you with information about Llangunnor School PTA and lets you know how you can join in.

## Pam fod gennym CRhA?

Rydym yn ffodus yn Ysgol Llangynnwr i gael CRhA sy'n rhan annatod o gymuned yr ysgol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi codi miloedd o bunnoedd, sydd wedi ei wario ar offer ac adnoddau i gyfoethogi profiad addysgol ein plant a chyfleusterau'r ysgol.

Mae'n cymdeithas yn ymwneud â llawer mwy na chodi arian yn unig. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llangynnwr yn bodoli i ddarparu cysylltiadau agosach rhwng y cartref a'r ysgol, ac mae'n ffordd wych o ddod â staff, rhieni a ffrindiau ynghyd yn gymdeithasol i gefnogi'r ysgol, gan weithio tuag at nod cyffredin. Mae'n hwyl hefyd – gofynnwch i unrhyw un o aelodau'r Pwyllgor neu wirfoddolwyr.

Anogir pob rhiant ac aelod o gymuned yr ysgol i gymryd rhan yn y gymdeithas yma, hyd yn oed os mai dim ond ychydig o amser sydd ganddynt. Mae pob teulu yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn naturiol pan fydd eu plentyn yn ymuno â'n hysgol ni.

Mae yna '6 rheswm pam…' y mae'n wych i gymryd rhan yn y CRhA

1. Ar gyfer y Plant
2. Mae'n adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasoedd da
3. Mae'n codi arian
4. Mae'n rhoi llais i chi
5. Mae'n creu cysylltiadau y tu hwnt i giât yr ysgol
6. Mae'n dda i chi

## Why do we have a PTA?

We are fortunate at our school to have a PTA that's an integral part of the school community. Over the last few years, we have raised thousands of pounds, which has been spent on equipment and resources to enhance our children's educational experience and the school's facilities.

Our association is about much more than simply fundraising. Llangunnor School PTA exists to provide closer links between home and school, and it is an excellent way to bring staff, parents and friends together socially in support of the school, working towards a common goal. It's fun too - just ask any of the Committee members or volunteers.

All parents and members of the school community are encouraged to get involved, even if they only have a small amount of time available. All families are automatically members of the PTA when their child join's our school.

There are '6 reasons why…' it's great to get involved.

1. For the Children
2. It builds trust
3. It rises welcome funds
4. It gives you a voice
5. It forges connections beyond the school gate
6. It's good for you

## Rôl y Pwyllgor

Mae'n Pwyllgor yn cynnwys y Cadeirydd, y Trysorydd, yr Ysgrifennydd, ac Aelodau Cyffredin y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd gyda grwpiau llai yn cyfarfod yn ôl yr angen pan fyddwn yn cynllunio digwyddiadau mawr.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal cyfarfodydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon agored, gall unrhyw aelod fynychu, cael gwybod ynglŷn â beth mae'r gymdeithas yn ei gynllunio, rhannu syniadau a chymryd rhan.

## Role of the Committee

Our Committee consists of the Chair, Treasurer, Secretary, and Ordinary Committee Members

The Committee meet on a regular basis with smaller working groups meeting as necessary when we are planning larger events.

The Committee also hold open PTA meetings, any member can come along, find out what the association are planning, share ideas and get involved.

## Gwirfoddolwyr

Rydym yn croesawu unrhyw gymorth gan rieni, athrawon a ffrindiau, ac mae gennym restr gynyddol o wirfoddolwyr sy'n rhoi rhywfaint o'u hamser i helpu'r gymdeithas. Mae popeth bach yn helpu, felly byddai dim ond awr o gynorthwyo mewn digwyddiad, lapio gwobrau dip lwcus neu plygu tocynnau raffl (dim ond ychydig o enghreifftiau) yn amhrisiadwy.
Os hoffech ymuno â ni siaradwch ag aelod o'r pwyllgor, dewch i'n cyfarfod nesaf neu anfonwch e-bost atom i llangunnorschoolpta@gmail.com

## Volunteers

We welcome any help from parents, teachers and friends, and have a growing list of volunteers who commit some of their time to helping the association. Every little helps, so just one hour of assisting at event or wrapping lucky dip prizes or folding raffle tickets (just a few examples) would be invaluable. If you would like to join us please speak to a committee member, come along to our next meeting or email us at llangunnorschoolpta@gmail.com

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn nhymor yr Hydref ac mae'n gyfle gwych i bob rhiant ymuno i glywed am ein gwaith yn fanylach, y digwyddiadau rydym wedi'u cynnal, yr arian rydym wedi'u godi a sut mae'r arian wedi'u wario. Dyna hefyd pan fyddwn yn ethol ein haelodau pwyllgor newydd.

## Annual General Meeting (AGM)

Our Annual General Meeting is held in the Autumn term and provides an excellent opportunity for all parents to come along and hear in more detail about our work, the events we have run, the funds we have raised and how the money has been spent. It is also when we elect our new committee members.

## Cymorth gan 'Parentkind'

Mae ein Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn aelod o 'Parentkind', sy'n elusen genedlaethol ac yn sefydliad aelodaeth sy'n rhoi cymorth ac arweiniad i dros 13,500 o gymdeithasau rhieni yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae aelodaeth yn cynnwys yswiriant cynhwysfawr gan Zurich Insurance plc ar gyfer ein holl digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan y gymdeithas ac mae'n rhoi mynediad i gefnogaeth a chyngor ar redeg y gymdeithas ynghyd â syniadau codi arian ac awgrymiadau ar gyfer arfer da.
Mae 'Parentkind' hefyd yn darparu adnoddau i Rieni, os hoffech chi gofrestru ar gyfer eu e-bwletin Rhieni, ewch i https://www.parentkind.org.uk/Signup

## Support from Parentkind

Our PTA is a member of Parentkind, which is a national charity and membership organisation providing support and guidance to over 13,500 parent associations in England, Wales and Northern Ireland. Membership includes comprehensive insurance cover by Zurich Insurance plc for all our association run events and gives access to support and advice on running the association plus fundraising ideas and good practice hints and tips

Parentkind also provide resources for Parents, if you would like to sign up to their Parent e-Bulletin please visit https://www.parentkind.org.uk/Signup

## Sut rydym yn codi arian

Fel y rhan fwyaf o Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon, mae'r mwyafrif o'n harian yn cael ei godi drwy'r digwyddiadau rydyn ni'n eu cynnal. Rhai o'n digwyddiadau mwyaf poblogaidd yw:
Ffair Haf
Ffair Nadolig
Disgo Ysgol
Mae rhoddion gan rieni yn hynod o bwysig. Gallwch gyfrannu amser, arian, eitemau i'w gwerthu, gwobrau raffl a gwobrau ocsiwn neu gynigion o wasanaethau a sgiliau.
Gallwch gyfrannu arian drwy siopa ar-lein drwy gofrestru ar gyfer easyfundraising-

https://www.easyfundraising.org.uk/causes/llangunnorpta/

Sut rydyn ni'n gwario'r arian rydyn ni'n ei godi:
Pwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sy'n gyfrifol am benderfynu sut y caiff ein cyllid Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ei wario. Fel arfer mae Tîm Arwain yr Ysgol yn darparu 'rhestr dymuniadau' o eitemau yr hoffai'r ysgol i ni ystyried eu hariannu. Rydym yn gwahodd mewnbwn gan rieni hefyd, felly os oes gennych syniad o rywbeth a fyddai o fudd i holl ddisgyblion yr ysgol, cofiwch ei rannu gyda'r Pwyllgor. Gallwn ei drafod mewn cyfarfod a chynnig adborth.
Mae arian fel arfer yn cael ei wario ar y 'pethau ychwanegol' nad ydynt yn cael eu darparu gan gyllideb yr ysgol, gan wneud profiadau dysgu ein plant yn llawer mwy gwerthfawr a chyffrous. Yn gyffredinol, ni chaiff arian ei wario ar wella adeiladwaith yr ysgol, gan mai cyfrifoldeb yr ysgol yw hyn. Mae ein Cyfansoddiad yn ymrwymo'r gymdeithas i wario arian ar bethau a fydd o fudd uniongyrchol i'r plant. Rhestrir rhai o'r eitemau rydym wedi eu rhoi i'r ysgol isod:
Offer TG
Llyfrau
Dosbarth awyr agored

## How we raise money

Like most PTAs, the majority of our funds are raised through the events that we run. Some of our most popular events are:

Summer Fair

Christmas Fair

School Disco's

Donations from parents are extremely important. You can donate time, money, items for sale, raffle prizes and auction lots or offers of services and skills.

You can donate money by shopping on-line by registering for easyfundraising-

https://www.easyfundraising.org.uk/causes/llangunnorpta/

## How we spend the money we raise

The PTA committee are responsible for deciding how our PTA funds are spent. Usually the School Leadership Team provide a 'wish list' of items that the school would like us to consider funding.

We also invite input from parents too, so if you have an idea of something that would benefit all the students in the school, please do share it with the Committee. We can discuss it at a meeting and feedback.

Funds are typically spent on the 'extras' that are not provided by the school's budget, thus making our children's learning experiences so much more fulfilling and exciting. Funds are not generally spent on improving the fabric of the school building, as this is the responsibility of the school. Our Constitution commits the association to spending money on things that will benefit the children directly.

Some of the items we have donated to the school are listed below

IT equipment

Books

Outdoor classroom

## Sut rydyn ni'n rhoi'r wybodaeth diweddaraf i chi

Rydym yn anfon negeseuon at ap yr ysgol, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau a dyddiadau sydd ar y gweill yn ogystal â manylion ynglŷn â'r help rydym yn chwilio amdano mewn digwyddiadau mawr.
Os oes gennych chi fynediad i Facebook, ymunwch â'n tudalen trwy glicio ar y ddolen isod.

(1) Llangunnor PTA CRHA Llangynnwr | Facebook

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi creu grŵp Whatsapp yn gwerthu gwisg ysgol, os hoffech ymuno â'r grŵp cliciwch ar y ddolen isod.

https://chat.whatsapp.com/LFs7g7BdKX78R0WQZexyDD

## How we keep you up to date

We send messages vis the schools app, this includes information on upcoming events and dates plus as well as details of the help we are looking for at lager events.

If you have access to Facebook, please join our page by clicking the link below.

(1) Llangunnor PTA CRHA Llangynnwr | Facebook

The PTA have created a Whatsapp group selling school uniform, if you would like to join the group please click on the link below.

https://chat.whatsapp.com/LFs7g7BdKX78R0WQZexyDD

**Edrychwn ymlaen at eich croesawu i deulu Ysgol Llangynnwr!**

**We look forward to welcoming you to our Llangunnor school family!**